Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn Canllawiau i'r Brifysgol Agored

Fersiwn 1

Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys

Diben y cyllid ..... 2
Grwpiau â Blaenoriaeth ..... 2
Myfyrwyr a chyrsiau cymwys ..... 3
Gweithgarwch cymwys ..... 3
Gweithgarwch anghymwys ..... 8
Pennu taliadau ..... 8
Taliadau i fyfyrwyr ..... 9
Taliadau heblaw yn uniongyrchol i'r myfyriwr / dyled y mae arnynt i'r sefydliad ..... 9
Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau'n cael eu hatal dros dro ..... 9
Apeliadau ..... 10
Cyngor i fyfyrwyr ..... 10
Cyffredinol ..... 10
Cynnig Gofal Plant Cymru ..... 10
Taliadau i'r Sefydliad ..... 11
Gofynion Monitro ..... 11
Atebolrwydd ..... 11
Manylion Cyswllt ..... 12

## Diben y cyllid

1. Diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yw rhoi cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny y gallai eu mynediad at addysg uwch gael ei rwystro gan ystyriaethau ariannol neu sydd, am ba bynnag reswm, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, yn wynebu anawsterau ariannol.

2. Daw'r Canllawiau hyn i rym o 1 Awst 2025 ac maent yn disodli canllawiau presennol ynghylch y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth am ddiben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y cyllid, ac yn gosod gofynion mewn perthynas â'r trefniadau hynny. Rhaid i'r Brifysgol Agored gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon wrth bennu ei pholisïau cyllido; asesu cymhwystra ac anghenion myfyrwyr unigol; a gwneud taliadau.

3. Yn y Canllawiau hyn mae "Sefydliad" yn cyfeirio at y Brifysgol Agored sy'n cael cyllid at ddibenion y Gronfa Ariannol Wrth Gefn gan Medr.

4. Gall Medr, ar unrhyw adeg, ddiwygio'r trefniadau a nodir yn y Canllawiau hyn, eu dirymu neu ychwanegu atynt.

## Grwpiau â Blaenoriaeth

5. Rhaid i'r Sefydliad roi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n perthyn i un neu fwy o'r grwpiau â blaenoriaeth a nodir isod:

6. Myfyrwyr â phlant dibynnol dan 18 oed. Dylai'r Sefydliad ystyried Cynnig Gofal Plant Cymru cyn gwneud dyfarniad.

7. Myfyrwyr ag ymrwymiadau ariannol hanfodol presennol, gan gynnwys dyledion â blaenoriaeth (gweler y tabl ym mharagraff 22 isod).

8. Myfyrwyr anabl, yn enwedig y rhai nad yw eu Grant Myfyriwr Anabl yn gallu talu rhai costau penodol ac nad yw'r Sefydliad dan unrhyw rwymedigaeth i'w talu ychwaith.

9. Myfyrwyr sydd, ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 3 blynedd cyn diwrnod cyntaf eu cwrs, wedi bod yng ngofal awdurdod lleol.

10. Myfyrwyr ar eu blwyddyn olaf sydd mewn anhawster ariannol, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gallu gwneud gwaith am dâl oherwydd pwysau academaidd.

11. Myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael cymorth dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (Rheoliadau 2018) neu o dan gynllun cymorth i fyfyrwyr cyfatebol a gyllidir gan lywodraeth y myfyriwr cymwys neu ddeddfwriaeth gyfatebol gan lywodraeth y myfyriwr cymwys, er bod rhaid i fyfyrwyr o'r fath allu dangos eu bod wedi gwneud darpariaeth ddigonol mewn perthynas â chostau byw tra pery eu cwrs.

12. Myfyrwyr sydd hefyd yn ofalwyr sy'n rhoi cymorth di-dâl i rywun na fyddai'n gallu ymdopi heb y cymorth yma.

13. Atgoffir y Sefydliad nad yw perthyn i grŵp â blaenoriaeth ynddo’i hun yn sail ar gyfer gwneud dyfarniad o’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Nid yw peidio â pherthyn i grŵp â blaenoriaeth yn golygu nad yw myfyriwr yn gymwys i gael dyfarniad ychwaith.

## Myfyrwyr a chyrsiau cymwys

14. Ni fydd myfyriwr yn fyfyriwr cymwys oni bai eu bod yn perthyn i un o’r categorïau myfyrwyr cymwys yn Atodlen 2 Rheoliadau 2018, fel y’i diwygiwyd. Y Sefydliad fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y myfyrwyr cymwys yn bodloni’r amodau preswylio ar gyfer cymorth dan y canllawiau hyn.

15. Mae myfyriwr cymwys yn golygu myfyriwr rhan-amser:
    - y mae ei raglen astudio yn y Sefydliad yn cael ei gweinyddu gan y Brifysgol Agored yng Nghymru; ac
    - sydd, ym marn y Sefydliad, yn perthyn i un o’r categorïau ym mharagraffau a a b isod:
        a) Myfyrwyr israddedig: gan gynnwys myfyrwyr o bell sy’n dilyn cwrs addysg uwch neu unrhyw gyfnodau o leoliad gwaith neu astudio ar gyrsiau gradd sylfaen. Mae myfyrwyr sy’n astudio ar flynyddoedd sylfaen sy’n rhan annatod o gwrs israddedig, a lle mae dilyniant i ran addysg uwch y cwrs yn ddibynnol ar gwblhau’r flwyddyn honno, hefyd yn gymwys i wneud cais am gymorth dan y canllawiau hyn.
        b) Myfyrwyr ôl-radd: sy’n dilyn cwrs addysg uwch ar lefel uwchlaw gradd gyntaf sy’n para am o leiaf un flwyddyn academaidd. Gall hyn gynnwys, yn ôl disgresiwn y Sefydliad, y rhai sy’n ysgrifennu eu traethawd hir am uchafswm cyfnod o 6 mis o ddyddiad diwedd cofrestriad y cwrs ac nad ydynt felly’n mynychu’r Sefydliad.

16. Lle mae myfyriwr yn gymwys dim ond ar gyfer cymorth gyda ffioedd dysgu dan Reoliadau 2018, byddant yn fyfyriwr cymwys dim ond at ddibenion cymorth ar gyfer ffioedd dysgu. Lle mae’r Sefydliad wedi penderfynu cyn 1 Awst yn y flwyddyn academaidd mai dim ond i gael cymorth ar gyfer ffioedd dysgu y mae myfyriwr yn gymwys, dim ond i gael cymorth ar gyfer ffioedd dysgu y bydd y myfyriwr hwnnw’n gymwys tra pery’r cwrs.

17. Rhaid i fyfyrwyr cymwys fod wedi archwilio ac ymgeisio am bob ffynhonnell cyllid arall, gan gynnwys cyllid cyhoeddus, cyn y gellir ystyried cais dan y canllawiau hyn.

18. Gall y Sefydliad dderbyn mwy nag un cais am gyllid gan fyfyriwr cymwys ond fel arfer dim ond lle mae amgylchiadau’r myfyriwr cymwys wedi newid neu lle mae’r myfyriwr cymwys yn ymgeisio am gynhorthwy yn ystod gwyliau’r haf.

## Gweithgarwch cymwys

19. Gellir defnyddio’r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i roi cymorth yn y categorïau eang a amlinellir yn y tabl ym mharagraff 22 isod.

20. Dylai’r Sefydliad nodi nad yw’r categorïau hyn yn gynhwysfawr ond eu bod wedi’u bwriadu i ddynodi’r ystod eang o gymorth sy’n perthyn o fewn cwmpas cyllid y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Lle nad yw math arbennig o gymorth neu gategori

cymorth arbennig wedi'i gynnwys yn y tabl ym mharagraff 22, cysylltwch â Medr i gael eglurhad.

21. Gall y Sefydliad ddefnyddio 3% o gyfanswm ei ddyraniad cyllid neu £525, pa un bynnag yw'r mwyaf, i sicrhau bod y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael cyhoeddusrwydd effeithiol ac y'i gweinyddir yn effeithiol.

22.

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad o'r ddarpariaeth |
|---|---|
| **Cynhorthwy gyda chostau Anabledd** | Gall y Sefydliad wneud taliadau at ddiben helpu myfyrwyr cymwys anabl a myfyrwyr cymwys â dibynyddion anabl. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, taliadau mewn perthynas â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd nad ydynt yn cael eu talu gan y Lwfans Myfyrwyr Anabl. Er enghraifft, mewn perthynas â phrawf diagnostig rhagarweiniol neu rai mathau o offer. Lle mae'r Sefydliad wedi prynu offer ar gyfer myfyriwr anabl dan y canllawiau hyn, dylai'r offer hwnnw aros yn eiddo i'r Sefydliad, oni bai bod yr offer hwnnw wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol y myfyriwr hwnnw. |
| **Llyfrau** | Gall y Sefydliad brynu llyfrau hanfodol ar gyfer myfyrwyr sy'n ofynnol ar gyfer eu rhaglen ddysgu. Fel arfer dylai unrhyw ddeunyddiau a brynwyd gan Sefydliad gan ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn aros yn eiddo i'r Sefydliad. |
| **Offer** | Gall Sefydliadau brynu offer hanfodol ar gyfer dysgwyr sy'n ofynnol ar gyfer eu rhaglen ddysgu. Ni ddylai hyn fod ar gyfer deunyddiau a ddarperir i'r holl ddysgwyr fel rhan o'r rhaglen. Fel arfer dylai unrhyw offer a brynwyd gan Sefydliad gan ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn aros yn eiddo i'r Sefydliad.<br><br>Dylai eitemau mawr o offer a brynwyd ar gyfer defnydd dysgwyr unigol aros yn eiddo i'r Sefydliad. |
| **Costau Byw** | Gall y costau hyn gynnwys, ymhlith costau eraill, rhent, taliadau morgais, bwyd, biliau cyfleustodau, dillad a golchi dillad, a gallant gynnwys costau a ysgwyddir yn ystod gwyliau'r haf yn ogystal ag yn ystod y tymor. |
| **Gofal Plant** | Gall y Sefydliad gefnogi myfyrwyr gyda chostau sy'n gysylltiedig â gofal plant. Dylai'r Sefydliad ystyried Cynnig Gofal Plant Cymru cyn gwneud dyfarniad. |
| **Cludiant (gan gynnwys swmp-brynu)** | Gall y Sefydliad ddefnyddio'r cyllid i gefnogi myfyrwyr gyda'r costau sy'n gysylltiedig â chludiant. |

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad o'r ddarpariaeth |
|---|---|
| **Cludiant i Fyfyrwyr Anabl** | Gall y Sefydliad ddefnyddio'r cyllid i gefnogi myfyrwyr sy'n ysgwyddo costau uwch am bod arnynt angen cludiant arbenigol oherwydd eu hanabledd. |
| **Teithiau Maes** | Gall y Sefydliad ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi myfyrwyr gyda chostau teithiau maes sy'n hanfodol i'w rhaglen ddysgu. |
| **Grantiau a Benthyciadau** | Gall y Sefydliad ddarparu cyllid ar ffurf grantiau neu fenthyciadau byrdymor. Y Sefydliad sydd i bennu swm y grant neu'r benthyciad byrdymor a ddyfernir i fyfyrwyr cymwys.<br><br>Gall y Sefydliad ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf benthyciadau byrdymor. Gall myfyrwyr cymwys gael benthyciad byrdymor brys dan y canllawiau hyn lle bu oedi gyda thaliad cyntaf eu benthyciad y tu hwnt i ddechrau'r tymor dan sylw. Y Sefydliad sydd i bennu swm y benthyciad byrdymor a ddyfernir i fyfyriwr cymwys, er yr argymhellir na ddylai'r taliad hwn fod yn fwy na phedair wythnos o fenthyciad. Gall fod amgylchiadau eraill hefyd lle mae'r Sefydliad yn dymuno asesu budd cynnig benthyciad byrdymor. |
| **Ffioedd dysgu a chostau sy'n gysylltiedig â'r cwrs** | Ni ddylai'r Sefydliad ddarparu cyllid mewn perthynas â ffioedd dysgu myfyriwr cymwys dan unrhyw amgylchiadau ac eithrio'r canlynol:<br><br>• Gall y Sefydliad ddarparu cymorth ychwanegol gyda ffioedd ar gyfer myfyrwyr cymwys ar incwm isel nad yw cymorth arall gyda ffioedd yn ddigon i dalu'r ffi ddysgu lawn, yn enwedig dan amgylchiadau lle bydd y caledi ariannol sy'n deillio o hynny'n atal myfyriwr rhag cael mynediad at addysg uwch ac aros mewn addysg uwch.<br>• Gall y Sefydliad gynnig cymorth dan y canllawiau hyn mewn perthynas â'r ffioedd a godir ar gyfer un modiwl blasu israddedig neu un flwyddyn academaidd o fodiwl blasu israddedig, pa un bynnag yw'r byrraf. Gellid trefnu bod cynhorthwy cyfyngedig ar gael ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â'r cwrs hefyd, megis llyfrau neu deithio. |

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad o'r ddarpariaeth |
|---|---|
| | • Lle mae myfyriwr cymwys yn gwneud modiwl blasu israddedig ac, o fewn yr un flwyddyn academaidd, yn trosglwyddo credydau a gronnwyd o'r modiwl hwnnw i flwyddyn gyntaf cwrs addysg uwch rhan-amser, rhaid i'r Sefydliad gymryd gofal i reoli cymorth gyda ffioedd dysgu mewn modd priodol. Rhaid i'r Sefydliad sicrhau nad yw unrhyw gymorth gyda ffioedd dysgu y mae'r myfyriwr cymwys yn ei gael yn ystod y flwyddyn academaidd honno – dan y canllawiau hyn neu drwy unrhyw gymorth statudol gyda ffioedd – yn fwy na'r ffioedd dysgu a godir ar fyfyrwyr sy'n cofrestru'n uniongyrchol ar y cwrs addysg uwch rhan-amser hwnnw. |
| **Costau eithriadol** | Mae costau o'r fath yn cynnwys, ymhlith eraill, atgyweiriadau i offer hanfodol y cartref, sefyllfaoedd brys (gan gynnwys costau teithio ar gyfer afiechyd teuluol neu brofedigaeth, a chaledi oherwydd byrgleriaeth neu dân) a chynhorthwy gyda dyledion â blaenoriaeth.<br><br>Mae dyledion â blaenoriaeth yn golygu'r rhai lle byddai peidio â'u talu'n golygu bod gan y credydwr hawl i amddifadu'r dyledwr o'u cartref, neu nwyddau neu wasanaethau hanfodol, ac felly nid ydynt yn cynnwys y rhai a ysgwyddir ar ffurf gorddrafftiau banc neu gardiau credyd. |

## Gweithgarwch anghymwys

23. Ni ddylid defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu cost ffioedd dysgu, ac eithrio yn unol â'r tabl ym mharagraff 22 uchod.

24. Ni ddylai Sefydliadau ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ategu cynlluniau hawlogaeth sy'n seiliedig ar brawf modd (e.e. cynlluniau grant/bwrsariaeth hawlogaeth).

25. Ni ddylid defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ddarparu cyfleusterau grŵp neu gymunol, nac i wneud addasiadau i adeiladau.

26. Gall Sefydliadau ddefnyddio'r cyllid i ddarparu gwasanaethau cludiant; fodd bynnag, ni ddylai gwasanaethau o'r fath gynnwys costau cyfalaf, megis prynu cerbyd.

27. Mae dirwyon a blaendaliadau y tu hwnt i gwmpas y cyllid. Mae enghreifftiau'n cynnwys dirwyon am ddychwelyd llyfrau'n hwyr i'r llyfrgell neu ddirwyon disgyblu eraill; blaendaliadau ar loceri, cardiau adnabod, allweddi, cardiau llyfrgell ac offer y rhoddir ad-daliad llawn amdanynt ac eithrio yn achos difrod neu ddwyn.

## Pennu taliadau

28. Rhaid i sefydliadau bennu eu meini prawf cymhwystra eu hunain a'u gweithdrefnau eu hunain ar gyfer ystyried ceisiadau a gwneud taliadau i fyfyrwyr cymwys, yn amodol ar y canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau eraill gan Medr.

29. Mae'n ofynnol i'r Sefydliad fod â pholisi ysgrifenedig ar gyfer dyrannu taliadau i fyfyrwyr cymwys. Rhaid i'r polisi ysgrifenedig fod yn eglur ac wedi'i gyhoeddi (ynghyd â'r weithdrefn apeliadau) ym mha bynnag fodd sy'n briodol yn nhyb y Sefydliad, ar yr amod ei fod yn hygyrch i fyfyrwyr a'r rhai sy'n eu cynghori. Rhaid i'r polisi ysgrifenedig, ac unrhyw ddeunyddiau neu hysbysebion eraill a gyhoeddir mewn perthynas â'r canllawiau, gyfeirio at y canllawiau fel "Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn – Canllawiau i'r Brifysgol Agored". Dylid trefnu bod y rhain ar gael yn eang i'r holl randdeiliaid.

30. Rhaid i geisiadau am gyllid o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gael eu gwerthuso gan y Sefydliad fesul achos unigol yn unol â'i bolisïau ysgrifenedig ar gyfer dyrannu cyllid. Ym mhob achos, rhaid i'r Sefydliad asesu cais myfyriwr yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd gan y myfyriwr a'i amgylchiadau unigol. Dylai myfyriwr gael ei hysbysu a yw ei gais am gyllid wedi bod yn llwyddiannus ai peidio o fewn pedair wythnos ar ôl i'r Sefydliad gael y cais hwnnw.

31. Wrth ystyried ceisiadau, rhaid i Sefydliadau ystyried amgylchiadau ariannol y myfyriwr ac argaeledd cymorth o ffynonellau eraill, megis: cynlluniau a gyllidir gan y Llywodraeth; Cynnig Gofal Plant Cymru Llywodraeth Cymru; neu Fudd-daliadau Lles gan gynnwys: Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol, a chymorth a roddir gan awdurdod lleol y myfyriwr. Efallai na fydd rhai myfyrwyr yn gymwys i gael y cymorth o'r rhestr uchod; serch hynny, gallent ddal i wynebu caledi ariannol a byddent felly'n gymwys i gael cymorth trwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

32. Dylai'r Sefydliad ystyried a yw hi'n briodol ystyried unrhyw fwrsariaethau dewisol y mae wedi eu dyfarnu i fyfyriwr yn flaenorol, naill ai'n seiliedig ar gyrhaeddiad neu'n seiliedig ar brawf modd, wrth asesu eu cymhwystra dan y canllawiau hyn. Hefyd, a yw'r myfyriwr yn cael unrhyw fwrsariaethau neu gymelldaliadau hyfforddi ariannol o ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â chyrsiau penodol, er enghraifft y rhai sy'n gysylltiedig â'r GIG a hyfforddiant athrawon.

33. Dylai'r Sefydliad fod yn ymwybodol efallai na fydd cyfraniadau gan rieni neu bartner, am amrywiaeth o resymau gan gynnwys ymddieithrio ac anawsterau ariannol yn y teulu, wastad gymaint â'r disgwyl.

34. Wrth bennu a gwneud taliadau i fyfyrwyr, dylai'r Sefydliad roi sylw i unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas â gofynion a osodir gan Bennod 2 Rhan 6 Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Taliadau i fyfyrwyr

35. Rhaid i'r Sefydliad ymdrin yn brydlon â thaliadau myfyrwyr gan gofio diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ac amgylchiadau sy'n achosi caledi ariannol.

36. Rhaid i'r Sefydliad beidio ag ymrwymo i ddyfarniadau o un flwyddyn i'r llall ar gyfer myfyrwyr.

37. Er y gall taliadau o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gael eu cytuno mewn egwyddor cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, **ni ddylid** eu talu nes bod y myfyriwr wedi dechrau ei raglen astudio.

38. Gall y Sefydliad wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys naill ai mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau.

### Taliadau heblaw yn uniongyrchol i'r myfyriwr / dyled y mae arnynt i'r sefydliad

39. Yn amodol ar yr eithriad a ganlyn, gall y Sefydliad ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ad-dalu symiau i'w hun y mae ar y myfyriwr iddo, ar yr amod bod y myfyriwr yn rhoi cydsyniad yn gyntaf i ddefnyddio'r cyllid at y diben hwnnw. yr eithriad yw na all y Sefydliad ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i ad-dalu symiau i'w hun yn uniongyrchol mewn perthynas â ffioedd dysgu sydd heb eu talu (heblaw am ddyled sydd wedi codi mewn perthynas â thaliad a wnaed dan baragraff 22 y canllawiau hyn).

40. Ni ddylai'r Sefydliad wneud taliadau dan y canllawiau hyn sy'n amodol ar daliad yn gyntaf gan fyfyriwr i setlo unrhyw ddyled y mae ar y myfyriwr hwnnw i'r sefydliad, na'i gwneud yn ofynnol i fyfyriwr ddefnyddio unrhyw daliad dan y canllawiau hyn i setlo dyled o'r fath.

### Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau'n cael eu hatal dros dro

41. Gall y Sefydliad wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys sydd wedi atal eu hastudiaethau dros dro am resymau iechyd, gofalu, beichiogrwydd, neu oherwydd unrhyw amgylchiadau eraill sy'n briodol ym marn y Sefydliad, ar yr amod bod y Sefydliad

wedi'i argyhoeddi nad yw'r myfyriwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs na rhoi'r gorau iddo a bod y myfyriwr yn bwriadu dychwelyd at y cwrs.

### Apeliadau

42. Rhaid bod gan y Sefydliad weithdrefn apeliadau sydd wedi'i chyhoeddi ar gyfer achosion lle mae myfyrwyr wedi ymgeisio'n aflwyddiannus am gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylai'r weithdrefn hon fod yn eglur, cael ei chyhoeddi, a rhaid i fyfyrwyr gael eu hysbysu ynghylch eu hawl i apelio. Y Sefydliad â chyfrifoldeb am weinyddu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sydd i wneud penderfyniadau ynglŷn â chymhwystra a dyfarniadau. Dylai'r Sefydliad ystyried pob achos a datrys apeliadau yn unol â'r weithdrefn a gyhoeddwyd ganddo.

43. Dylai'r Sefydliad ystyried cynnwys cynrychiolaeth o blith myfyrwyr yn ei broses benderfynu.

## Cyngor i fyfyrwyr

### Cyffredinol

44. Mae rhoi cyngor ariannol i fyfyriwr yn rhan allweddol o sicrhau defnydd effeithiol o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

45. Dylai'r Sefydliad fod yn ymwybodol y gall fod yn achos pryder i rai myfyrwyr Mwslimaidd pan fo'n ofynnol iddynt arfer eu hawl i fenthyciad i fyfyrwyr. Yn yr achosion hyn gall gweinyddwyr ei chael yn ddefnyddiol cynghori myfyrwyr i ymweld â'r Ffederasiwn Cymdeithasau Islamaidd Myfyrwyr (FOSIS) i gael gwybodaeth a chyngor. Bydd gweinyddwyr y canllawiau hyn yn ymwybodol heb os bod llawer o fanciau yn y DU yn cynnig cyfrifon banc personol sy'n darparu gwasanaethau bancio yn ôl cyfraith Sharia.

46. Dylai Sefydliadau sicrhau bod myfyrwyr sy'n ceisio cymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn cael eu cynghori y gallai unrhyw daliadau y maent yn eu cael ddwyn goblygiadau ar gyfer eu hawl i fudd-daliadau, yn enwedig Cymhorthdal Incwm a Chredyd Cynhwysol.

### Cynnig Gofal Plant Cymru

47. Mae Cynnig Gofal Plant Cymru'n darparu 30 o oriau o addysg gynnar a gofal plant a gyllidir gan y Llywodraeth i rieni cymwys plant 3 a 4 oed am 48 o wythnosau mewn cyfnod o 52 o wythnosau.

48. Yn ystod tymhorau ysgol mae hyn yn isafswm o 10 awr o addysg gynnar (a ddarperir trwy Ddysgu Sylfaen) ac oriau ychwanegol o ofal plant a gyllidir. Ar gyfer yr wythnosau yn ystod y gwyliau sydd ar gael dan y Cynnig, gall rhieni gael mynediad at 30 o oriau o ofal plant a gyllidir.

49. O fis Medi 2022, mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi cael ei estyn i rieni mewn addysg a hyfforddiant.

50. Rhaid i rieni mewn addysg fod wedi cofrestru ar gwrs sy'n para o leiaf 10 wythnos i fod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru yn ogystal ag ateb gofynion eraill o ran cymhwystra.

51. Nid yw Cynnig Gofal Plant Cymru'n cael blaenoriaeth dros gymorth arall, gan gynnwys y Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Dylid rhoi cyngor ac arweiniad i rieni i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â'u hopsiynau.

52. Gan mai dim ond 30 o oriau o ofal plant yr wythnos y mae Cynnig Gofal Plant Cymru'n eu darparu, gellir defnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i dalu am oriau ychwanegol y gall fod ar rieni eu hangen ynghyd â chostau eraill sy'n gysylltiedig â gofal plant nas cwmpesir gan y Cynnig.

53. Er bod y risg o gyllido deuol yn isel, dylid rhoi gwiriadau yn eu lle i sicrhau nad yw oriau a gwmpesir gan Gynnig Gofal Plant Cymru wedi'u cynnwys yn unrhyw hawliadau a wneir gan rieni am gymorth o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

54. Dylai dysgwyr a all fod yn gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru, neu sydd â diddordeb mewn dod i wybod mwy, gael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Byddant hwy'n gallu cynghori rhieni ynglŷn â Chynnig Gofal Plant Cymru, eu cymhwystra a chymorth arall a all fod ar gael iddynt.

## Taliadau i'r Sefydliad

55. Bydd cyllid yn cael ei dalu i'r Sefydliad mewn tri rhandaliad ym mis Awst, mis Rhagfyr a mis Ebrill.

## Gofynion Monitro

56. Rhaid i Sefydliadau sy'n cael arian o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn gyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn erbyn y dydd Gwener olaf ym mis Tachwedd ar ôl diwedd y flwyddyn academaidd. Bydd templedi'r adroddiadau'n cael eu hanfon gan Medr i'w cwblhau cyn y terfyn amser ar gyfer eu cyflwyno.

57. Bydd unrhyw arian o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn sydd heb ei wario, gan gynnwys unrhyw log a gronnwyd gan y Sefydliad, a adnabuwyd yn yr adroddiad diwedd blwyddyn, yn cael ei adhawlio'n llawn gan Medr.

58. Rhaid i'r Sefydliad ddefnyddio'r ad-daliadau a wneir gan fyfyrwyr mewn perthynas â benthyciadau byrdymor a wnaed dan baragraff 22 at y dibenion a nodir yn y canllawiau hyn, neu ar gyfer taliadau pellach, y mae'n rhaid eu dogfennu yn yr un ffordd â'r taliadau gwreiddiol.

## Atebolrwydd

59. Cyfarwyddwr (neu rywun cyfatebol yn) y Sefydliad sy'n gyfrifol am:
    i. Cynghori Corff Llywodraethu'r Sefydliad ynghylch ei gyfrifoldebau dan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

ii. Sicrhau bod y ffyrdd y mae'r Sefydliad yn defnyddio ei ddyraniad cyllid yn gyson â diben y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ac y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r canllawiau hyn.

iii. Cymryd y mesurau hynny y gall Medr eu gwneud yn ofynnol o bryd i'w gilydd i sicrhau bod system o reolaethau a dulliau rheoli ariannol yn ei lle i alluogi'r Sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.

60. Rhaid i'r Sefydliad drefnu hefyd bod gwybodaeth mewn perthynas â'i gyfrifon archwiliedig ar gael i Medr os gofynnir.

## Manylion Cyswllt

61. Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch cynnwys y Canllawiau hyn, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**